## PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Dref, Rhuthun ar Ddydd Mercher, 4ydd Hydref, 2000 am 10.00 a.m.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr F.D. Jones (Cadeirydd), J. Butterfield, D.W. Davies, M.Ll. Davies, P.Douglas, S. Drew (dirprwy ar ran M.A. German) E.C. Edwards (Aelod Lleol), A.E. Fletcher-Williams, I.M. German, K.N. Hawkins, D.M. Holder, J.R. Hughes, N.J. Hughes, N. Hugh-Jones, G. Jones, M.M. Jones (Aelod Lleol), P.M. Jones, R.E. Jones, R.J.R. Jones, E.A. Owens, A.E. Roberts (Aelod Lleol), F. Shaw, J.A. Smith, K.P. Stevens, S. Thomas, W.G. Thomas, A.J. Tobin, K.E. Wells, C. Williams, P.O. Williams ac R.Ll. Williams.

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Pen Swyddog Cynllunio (De), Pen Swyddog Cynllunio (Gogledd), Swyddog Gweinyddol (G. Butler) a Chynorthwy-ydd Gweinyddol (A. Hughes).

## CYFLWYNWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH

Y Cynghorwyr M.A. German ac R.W. Hughes.

### 579. MATERION BRYS

Dim.

### 580. CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Gwasanaethau Cynllunio (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn rhestru'r cynlluniau a gyflwynwyd ac a oedd angen eu penderfynu gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD***:-

*(a) cadarnhau argymhellion y Swyddogion, fel y'u cynhwysir yn yr adroddiad a gyflwynir yn awr, a rhoi caniatâd cynllunio, neu'i wrthod, yn ôl fel y digwydd, fel y bo'n briodol dan y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio ac Iawndal, 1991, Rheoliadau Hysbysebion Cynllunio Gwlad a Thref, 1994 a/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth), 1990 i'r datblygiad a arfaethir gan y cynlluniau canlynol yn amodol ar yr amodau a nodir yn yr atodlen a gyflwynir yn awr:-*

(i) Caniatâd

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 01/2000/0668/PF | Codi estyniad i'r ysgol bresennol yn Ysgol y Santes Ffraid, Ffordd yr Wyddgrug, Dinbych, Sir Ddinbych. |
| 01/2000/0673/PF | (Cyhoeddodd y Cynghorydd P.O. Williams ddiddordeb yn y cais canlynol).<br>Newidiadau a newid defnydd eiddo adwerthol/domestig gwag i ffurfio swyddfeydd yn 23 Stryd Fawr, Dinbych, Sir Ddinbych. |
| 02/2000/0532/PF | (Ar ôl ystyried dau lythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau, y ddau oddi wrth R. Owen, Bryn Awel, St Meugans, Rhuthun).<br>Codi estyniad llawr cyntaf y tu ôl i'r annedd bresennol yn Rhewl Wen, St Meugans, Rhuthun, Sir Ddinbych. |
| 17/2000/0716/PO | Datblygu 0.1 hectar o dir drwy godi un annedd, llunio mynedfeydd newydd i gerbydau a cherddwyr a gosod tanc carthion ar Dir yn |

Gyfagos i Bryn Hyfryd, Pen y Stryt, Llandegla, Ger Wrecsam, Sir Ddinbych.
YN AMODOL ar amod newydd rhif 4 a nodyn ychwanegol i’r ymgeisydd rhif 1:-
4. Mae cynlluniau’r fynedfa i’r llain i gynnwys manyleb fanwl o’r modd o adeiladu’r fynedfa, yn cynnwys arwynebu a draenio, o’r ffordd at derfyn y llain, a byddir ond yn caniatáu i ddatblygu ddechrau unwaith y mae’r fynedfa wedi’i hadeiladu i safon briodol a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, ac nid oes neb i fyw yn yr annedd hyd nes y bydd y fynedfa wedi’i chwblhau yn ei chyfanrwydd yn unol â’r cynlluniau sydd wedi’u cymeradwyo.
RHESWM - Sicrhau bod mynedfa ddiogel a boddhaol yn cael ei hadeiladu, a diogelu buddiannau cyd-berchenogion y fynedfa at y brifffordd.
Nodyn ychwanegol i’r Ymgeisydd rhif 1:-
1. Fe’ch cynghorir i gysylltu â Chyngor Cefn Gwlad Cymru cyn dechrau ar unrhyw ddatblygu, i drafod mesurau i ddiogelu rhywogaethau bywyd gwyllt ar y safle.

19/2000/0646/PR
Manylion dwy annedd ar eu pen eu hunain a gyflwynwyd yn unol â chaniatâd cynllunio amlinellol a ganiatawyd yn flaenorol dan rif côd 19/621/99/PO ar Dir yn Gyfagos i Bryn Banadl, Llanelidan, Rhuthun, Sir Ddinbych.

21/2000/0810/PF
(Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau a dderbyniwyd oddi wrth Bennaeth Priffyrdd).
Bwriad i godi estyniad i’r ty annedd presennol a llunio mynedfa newydd i gerddwyr a cherbydau yn Ty Newydd, Ffordd y Pentref, Maeshafn, Ger Yr Wyddgrug, Sir Ddinbych.
YN AMODOL ar amodau newydd rhif 6 a 7:-
6. O fewn y darnau a ddangosir mewn coch ar y cynllun sydd ynghlwm wrth y Dystysgrif hon ni chaniateir unrhyw rwystr i weledadd, yn cynnwys waliau neu blannu, sy’n uwch na 1.05 metr uwchben lefel y lôn gerbydau gyfagos ar unrhyw adeg.
RHESWM - sicrhau lefel addas o weledadd i yrwyr sy’n defnyddio’r porth ceir, er mwyn diogelwch y briffordd.
7. Nid yw’r giatiau i’w hongian yn y lle a ddangosir ar y cynllun sydd wedi’i gymeradwyo ond maent i’w lleoli dim llai na 5 metr o ymyl ochr i mewn lôn gerbydau’r ffordd ac maent i’w trefnu i agor i mewn i’r safle yn unig.
RHESWM - er mwyn diogelwch y briffordd.

41/2000/0365/PR
(Ar ôl ystyried diwygiad i’r adroddiad - Paragraff 2 - caniatâd cynllunio amlinellol a ganiatawyd ym mis Hydref 1997 nid 1987).
Manylion 11 o dai a thirlunio a gyflwynwyd yn unol ag amod rhif 1 ar ganiatâd cynllunio cyfeirnod 41/623/97/PO yn Quarry Bank, Ffordd yr Wyddgrug, Bodfari, Dinbych, Sir Ddinbych.
YN AMODOL ar amodau newydd rhif 5, 6 a 7 a nodyn ychwanegol i’r ymgeisydd rhif 1:-
5. Nid yw’r un o’r coed neu’r gwrychoedd a ddangosir ar y cynlluniau sydd wedi’u cymeradwyo fel rhai sydd i’w cadw i’w torri, eu tocio neu eu brigdorri heb ganiatâd ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol ymlaen llaw. Mae unrhyw goed neu blanhigion gwrych sy’n marw neu’n cael eu difrodi’n ddifrifol neu eu heintio’n ddifrifol o fewn pum mlynedd i gwblhau’r datblygiad i’w cyfnewid am goed neu blanhigion gwrych o ba bynnag faint a rhywogaeth sydd i’w cytuno’n ysgrifenedig gyda’r Awdurdod Cynllunio Lleol.
RHESWM - diogelu’r coed a’r gwrychoedd presennol ar y safle, er mwyn amwynderau gweledol y gymdogaeth.

6. Mae’r holl goed a gwrychoedd sydd i’w cadw fel rhan o’r datblygiad a ganiateir drwy hyn i’w diogelu tra’n clirio’r safle ac yn ystod gwaith adeiladu gan ffens 1 metr o uchder a godir 1 metr y tu allan i derfynau eithaf lled y canghennau, neu yn unol â chynllun arall a gytunir yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol; nid yw unrhyw ddefnyddiau adeiladu neu unrhyw fath o bethau i’w llosgi neu eu rhoi ar y ddaear sy’n gorwedd rhwng bonyn coeden neu wrych a ffens o’r fath, ac nid yw lefel bresennol y ddaear i’w godi neu’i ostwng o fewn y mannau hyn, nac unrhyw ffosydd neu redfeydd pibelli i’w cloddio, heb ganiatâd ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol ymlaen llaw.
RHESWM - er mwyn sicrhau nad yw’r coed a’r gwrychoedd sydd i’w cadw yn cael eu difrodi gan waith adeiladu neu waith peirianyddol.
7. Mae wal gerrig 1 metr o uchder i’w chodi ar ochr ogledd-ddwyreiniol y brif fynedfa (yn gyfagos i Lain 1) cyn i neb fyw yn unrhyw un o’r anheddau a ganiateir drwy hyn yn unol â manylion sydd i’w cyflwyno i’r Awdurdod Cynllunio Lleol a’u cymeradwyo’n ysgrifenedig ganddo.
RHESWM - er lles cymeriad a golwg yr ardal.
Nodyn ychwanegol i’r ymgeisydd rhif 1:-
1. Yn ogystal â’r amodau a nodir uchod fe’ch atgoffir o’r angen i gydymffurfio â’r amodau cynllunio sydd ar ôl ar y caniatâd cynllunio amlinellol, yn arbennig amod rhif 5 (gweithredu tirlunio) rhif 6 (llain welededd) a rhif 7 (cyfyngiad ar fynediad i gerbydau).

43/2000/0623/PF

(Ar ôl ystyried tri llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Asiant yr Ymgeisydd, Pensaer Tirwedd a Phennaeth Priffyrdd).
Newid ac estyniadau i orsaf bwmpio yn cynnwys estyniad i’r tanc storio, uned rheoli oglau, uned dosio cemegol, uned gorsaf bwmpio newydd, uned gawod a ffens newydd yng Ngorsaf Bwmpio Prestatyn, Marine Road East, Prestatyn, Sir Ddinbych.
YN AMODOL ar nodyn newydd i’r ymgeisydd rhif 1
Fe Benderfynwyd ymhellach bod Cyngor Sir Ddinbych yn gwneud cytundeb tridarn gyda Chyngor Sir y Fflint a Dŵr Cymru i sicrhau bod mesurau rheoli oglau yn digwydd i ddatrys y materion yn Llanasa a glustnodwyd gan yr Arolygydd yn yr apêl ddiweddar, a bod dymchwel y tŵr awyru i’w gynnwys yn y cynllun gwaith.
Nodyn ychwanegol i’r ymgeisydd:-
1. Tynnir eich sylw at y Nodiadau Atodol Priffyrdd sy’n amgaeëdig Rhif 1, 2, 5 a 10.

43/2000/0815/PF

(Ar yr amod na dderbynnir unrhyw sylwadau pellach sy’n codi mater cynllunio nad ymdriniwyd ag ef eisoes yn yr adroddiad erbyn 9fed Hydref, 2000)
(Ar ôl ystyried pedwar llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Gyngor Tref Prestatyn, Pensaer Tirwedd, Asiantaeth yr Amgylchedd a’r Swyddog Llwybrau).
Newid defnydd tir yn safle claddu coedwigol ar Dir yng Nghae OS Rhif 6721, i’r De o Fynwent Coed Bell, Ffordd Gronant, Prestatyn, Sir Ddinbych.
YN AMODOL ar amodau diwygiedig rhif 2 a 3 ac amod newydd rhif 4 a nodiadau newydd i’r ymgeisydd rhif 1 a 2:-
2. Nid oes dim datblygu i ddigwydd hyd nes y bydd cynllun plannu ar gyfer y safle wedi’i gyflwyno i’r Awdurdod Cynllunio Lleol a’i gymeradwyo ganddo, y cynllun i gynnwys manylion:-
(a) rhestr o’r coed sydd i’w plannu mewn cysylltiad ag unrhyw gladdedigaeth goedwigol, a
(b) plannu gwrychoedd ar derfynau’r safle, yn cynnwys cadarnhad o’r rhywogaethau, y niferoedd, a lleoliad y plannu.
Dim ond coed y cyfeirir atynt yn y rhestr blannu gymeradwyedig sydd i’w plannu.

3. Mae plannu'r gwrych y cyfeirir ato yn (b) Amod 2 uchod i'w wneud yn y tymor plannu cyntaf ar ôl dechrau'r defnydd a ganiateir drwy hyn.
4. Cyn dechrau'r defnydd a ganiateir drwy hyn mae arolwg o ffynonellau dwr i'w wneud, y mae'i ganlyniadau ac unrhyw fesurau lliniarol yr ystyrir bod eu hangen i'w cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo.
RHESWM - penderfynu a oes unrhyw nodweddion dwr yn yr ardal a all fod mewn perygl.
Nodiadau newydd i'r ymgeiswyr:-
1. A wnewch chi gysylltu ag Asiantaeth yr Amgylchedd ynghylch gofynion Amod rhif 4 y caniatâd cynllunio hwn, os gwelwch yn dda.
2. Argymhellir bod y rhestr plannu coed y cyfeirir ati yn Amod rhif 2 (a) uchod yn cynnwys y rhywogaethau canlynol - coed mawr - derw, onnen a cheirios duon; coed bach - masarn bach, coed crabas, celyn, drain gwynion, cyll a chriafol.

44/2000/0724/PF

Codi estyniad unllawr to serth i ffurfio ystafell wely ac ystafell wydr y tu ôl i'r ty annedd yn Greenleas, Hylas Lane, Rhuddlan, Y Rhyl, Sir Ddinbych.
YN AMODOL ar amod diwygiedig rhif 3:-
3. Nid oes neb i fyw yn yr estyniad a ganiateir drwy hyn hyd nes bo ffens sgrinio neu wal 2m o uchder wedi'i chodi ar hyd y terfyn â Braeside fel y dangosir ar y cynllun amgaeëdig. Mae'r ffens neu'r wal i'w chadw wedi hynny ar uchder o 2m.

45/2000/0770/PF

Newid defnydd siop fara Dosbarth A1 yn siop goffi/bar trwyddedig Dosbarth A3 ar y llawr isaf i'w defnyddio ar y cyd â'r ty trwyddedig presennol ar y llawr cyntaf a newidiadau i'r blaenlun yn 78 Stryd Fawr, Y Rhyl.
YN AMODOL ar amod diwygiedig rhif 2, amod ychwanegol rhif 3 a nodyn newydd i'r ymgeisydd rhif 1:-
2. "Nid yw'r defnydd a ganiateir drwy hyn, ar y llawr isaf ac ar y llawr cyntaf, i'w weithredu ayb y tu allan i'r oriau canlynol:
0800 o'r gloch - 2330 o'r gloch dydd Llun i ddydd Sadwrn a 0800 o'r gloch - 2300 o'r gloch ar ddydd Sul.
3. Mae'r rheiliau haearn gyr ar y blaenlun i'w lliwio cyn dechrau'r defnydd a ganiateir drwy hyn yn unol â chynllun lliw sydd i'w gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo.
RHESWM - er lles golwg yr adeilad yng ngolygfa'r stryd.
Nodyn newydd i'r ymgeisydd:-
1. Fe'ch cynghorir y gall unrhyw osod arwyddion neu ddodrefn ar y palmant y tu allan i'r adeilad gael ei weld fel rhwystr ar y briffordd gan y Cyngor Sir fel awdurdod priffyrdd ac mae'n debygol o fod yn destun gweithredu gan y Cyngor Sir.

45/2000/0771/TP

Lleihau corun 5 coeden fasarn a lleihau corun, teneuo a chodi 1 goeden castanwydden; i gyd wedi'u cynnwys yn Grwp G12 ar y cynllun sy'n atodedig at Orchymyn Cadw Coed Cyngor Dosbarth Trefol Y Rhyl 1951 ar Dir ym Maes Emlyn, Y Rhyl, Sir Ddinbych.

45/2000/0787/PF

(Ar ôl ystyried tri llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Gyngor Tref Y Rhyl, Pennaeth Gwarchod y Cyhoedd a Mr Sheppard, 13 Crescent Road, Y Rhyl).
Addasu'r swyddfeydd presennol (Dosbarth B1) yn ganolfan/hostel "galw heibio" i bobl sengl a newidiadau i'r terfyn blaen presennol a darparu ramp yn 1 Marine Villa, Crescent Road, Y Rhyl, Sir Ddinbych.
YN AMODOL ar amod newydd rhif 2 a nodyn newydd i'r ymgeisydd rhif 1:-

2. Mae'r defnydd a ganiateir drwy hyn i'w weithredu'n unol â'r wybodaeth a amlinellir yn y llythyr dyddiedig 11eg Medi, 2000 oddi wrth asiantiaid yr ymgeisydd oni bai y cytunir fel arall yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.
RHESWM - er lles amwynderau preswyl y tai gerllaw.
Nodyn newydd i'r ymgeisydd:-
1. Fe'ch cynghorir i gysylltu â Swyddogion Rheoli Adeiladu y cyngor mewn perthynas â materion dihangfa a mynediad i'r anabl cyn gwneud y gwaith. Bydd angen gwneud newidiadau i'r cynlluniau i gydymffurfio â gofynion rheoliadau adeiladu
(Rhoddwyd y caniatâd hwn ar bleidlais fwrw'r Cadeirydd).

(ii) Gwrthod

| Rhif y Cais | Disgrifiad yr Eiddo |
|---|---|
| 18/2000/0399/PF | (Ar ôl ystyried un llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth V. Hickman, Grwp Moch Daear Ardal y Dyffryn, Rhuthun - yn tynnu'r gwrthwynebiad blaenorol yn ei ôl).<br>Bwriad i godi annedd gyfnewid, a newid defnydd cae amaethyddol cyfagos i ddarparu ar gyfer estyn cwrtil y cartref yn Celynog, Llandyrnog, Dinbych. |
| 22/2000/0602/PO | (Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Bennaeth Priffyrdd).<br>Datblygu 0.09 hectar o dir drwy godi annedd (cais amlinellol) ar Dir yn Gyfagos i Plas Coch Bach, Gellifor, Rhuthun, Sir Ddinbych.<br>Am y rheswm diwygiedig canlynol rhif 2 a rheswm newydd rhif 1:-<br>1. Mae'r safle wedi'i leoli y tu allan i derfyn datblygu Gellifor yng Nghynllun Lleol mabwysiedig Dosbarth Glyndwr a fersiwn adnau Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych sydd wedi bod yn destun ymgynghori cyhoeddus, ac felly byddai ei ddatblygu yn groes i Bolisi B8 Cynllun Fframwaith mabwysiedig Sir Clwyd, polisïau Strat 6, Strat 7, GEN4, GEN7 a HSG 6 y drafft adnau o'r Cynllun Datblygu Unedol, a chyngor y Llywodraeth fel y'i cynhwysir yng Nghanllawiau Cynllunio (Cymru) Polisi Cynllunio Diwygiad Cyntaf, sy'n ceisio diogelu a rheoli datblygiad yng nghefn gwlad.<br>2. Mae'r safle wedi'i leoli ar gwr, ond y tu allan i derfyn datblygu'r pentref yng Nghynllun Lleol mabwysiedig Dosbarth Glyndwr a fersiwn adnau Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych. Ni chyflwynwyd unrhyw wrthwynebiadau i'r terfyn datblygu yn fersiwn adnau y Cynllun Datblygu Unedol, ac mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried y byddai newidiadau tameidiog i'r terfyn datblygu yn tanseilio proses y Cynllun Lleol, gan wanhau gallu'r Awdurdod i wrthod cynigion tebyg a fyddai'n gynyddol niweidiol i'r dirwedd a chymeriad pentrefi a'u cefndiroedd yn y Sir. |
| 43/2000/0657/PO | Datblygu 0.145 hectar o dir drwy godi 2 annedd gyda garejis ar eu pen eu hunain ac adeiladu mynedfa i gerbydau (cais amlinellol) ar dir yn Highfield, Bishopswood Road, Prestatyn, Sir Ddinbych.<br>Am y rheswm diwygiedig rhif 3:-<br>3. Byddai'r datblygiad arfaethedig oherwydd culni'r safle, ac agosrwydd yr anheddau arfaethedig i goed aeddfed a'r anheddau presennol, yn arwain at y posibilrwydd o ddatblygiad sy'n edrych drosodd ac yn ormesol a byddai'n effeithio'n andwyol ar amwynderau preswyl darpar breswylwyr a'r preswylwyr presennol i'r gorllewin o'r safle yn Orme View Drive. |

(b) *Er gwaethaf argymhelliad y Swyddogion, bod y cais canlynol i'w wrthod am y rhesymau a nodir:-*

| Rhif y Cais | Disgrifiad yr Eiddo |
|---|---|
| 18/2000/0457/PF | (Ar yr amod na dderbynnir unrhyw sylwadau pellach sy'n codi materion cynllunio nad ymdriniwyd â hwy eisoes yn yr adroddiad erbyn 10fed Hydref 2000).<br>(Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau a dderbyniwyd oddi wrth W.G. & N.C. Williams, Plas Bennett, Llandyrnog).<br>Codi pum garej ddomestig mewn cysylltiad ag addasu tai allan at ddefnydd preswyl yn Plas Bennett, Llandyrnog, Sir Ddinbych.<br>Dymunai Swyddogion iddo gael ei nodi bod cwestiwn ynghylch perchenogaeth tir wedi'i godi a bod hyn wedi'i ddwyn at sylw'r rhai a effeithir. Fe nodwyd bod unrhyw anghydfod o'r math hwn yn fater sifil ac, yn yr amgylchiadau, ni ddylai'r cwestiwn hwn fod o unrhyw berthnasedd i'r broses benderfynu.<br>Yn dilyn cynnig i wrthod caniatâd ac wedi i'r nifer gofynnol o Aelodau ofyn am bleidlais gofnodedig, gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i bleidleisio i roi neu wrthod caniatâd cynllunio.<br><br><u>O blaid (rhoi caniatâd cynllunio) (11)</u><br>Y Cynghorwyr J. Butterfield, D.W. Davies, P. Douglas, D.M. Holder, F.D. Jones, P.M. Jones, E.A. Owens, F. Shaw, K.P. Stevens, W.G. Thomas a K.E. Wells.<br><br><u>Yn erbyn (gwrthod caniatâd cynllunio) (17)</u><br>Y Cynghorwyr M.Ll. Davies, S. Drew (dirprwy ar ran M.A. German), A.E. Fletcher-Williams, I.M. German, K. Hawkins, J.R. Hughes, N.J. Hughes, N. Hugh-Jones, G. Jones, R.E. Jones, R.J.R. Jones, J.A. Smith, S. Thomas, A.J. Tobin, C.H. Williams, P.O. Williams ac R.Ll. Williams.<br><br>Felly pleidleisiodd yr Aelodau i WRTHOD caniatâd cynllunio.<br>Gwnaed y penderfyniad hwn, a oedd yn GROES i Argymhelliad Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio am y rheswm canlynol:-<br>1. Barn yr Awdurdod Cynllunio Lleol yw bod y cynigion yn annerbyniol yn gymaint ag y byddai codi'r garejis yn arwain at ffurf orlawn o ddatblygu sy'n effeithio'n andwyol ar gymeriad, cefndir a phatrwm traddodiadol cyfadeiladau'r adeilad rhestredig a'r Ardal Dirwedd Arbennig, yn groes i bolisïau H14(iv) Cynllun Lleol Dosbarth Glyndwr, G6 Cynllun Fframwaith Cyngor Sir Clwyd: Addasiad Cyntaf, GEN7(i) a (ii) CON2 a HSG9(vi) fersiwn adnau Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych. |
| 18/2000/0461/LB | (Ar yr amod na dderbynnir unrhyw sylwadau pellach sy'n codi materion cynllunio nad ymdriniwyd â hwy eisoes yn yr adroddiad erbyn 10fed Hydref 2000).<br>(Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau a dderbyniwyd oddi wrth W.G. & N.C. Williams, Plas Bennett, Llandyrnog).<br>Codi pum garej ddomestig mewn cysylltiad ag addasu tai allan at ddefnydd preswyl yn Plas Bennett, Llandyrnog, Sir Ddinbych.<br>Dymunai Swyddogion iddo gael ei nodi bod cwestiwn ynghylch perchenogaeth tir wedi'i godi a bod hyn wedi'i ddwyn at sylw'r rhai a effeithir. Fe nodwyd bod unrhyw anghydfod o'r math hwn yn fater sifil ac, yn yr amgylchiadau, ni ddylai'r cwestiwn hwn fod o unrhyw berthnasedd i'r broses benderfynu.<br>Yn dilyn cynnig i wrthod caniatâd ac wedi i'r nifer gofynnol o Aelodau ofyn am bleidlais gofnodedig, gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i bleidleisio i roi neu wrthod caniatâd cynllunio. |

O blaid (rhoi caniatâd cynllunio) (11)
Y Cynghorwyr J. Butterfield, D.W. Davies, P. Douglas, D.M. Holder, F.D. Jones, P.M. Jones, E.A. Owens, F. Shaw, K.P. Stevens, W.G. Thomas a K.E. Wells.

Yn erbyn (gwrthod caniatâd cynllunio) (17)
Y Cynghorwyr M.Ll. Davies, S. Drew (dirprwy ar ran M.A. German), A.E. Fletcher-Williams, I.M. German, K. Hawkins, J.R. Hughes, N.J. Hughes, N. Hugh-Jones, G. Jones, R.E. Jones, R.J.R. Jones, J.A. Smith, S. Thomas, A.J. Tobin, C.H. Williams, P.O. Williams ac R.Ll. Williams.

Felly pleidleisiodd yr Aelodau i WRTHOD caniatâd cynllunio.
Gwnaed y penderfyniad hwn, a oedd yn GROES i Argymhelliad Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio am y rheswm canlynol:-
1. Barn yr Awdurdod Cynllunio Lleol yw bod y cynigion yn annerbyniol yn gymaint ag y byddai codi'r garejis yn arwain at ffurf orlawn o ddatblygu sy'n effeithio'n andwyol ar gymeriad, cefndir a phatrwm traddodiadol cyfadeiladau'r adeilad rhestredig a'r Ardal Dirwedd Arbennig, yn groes i bolisïau H14(iv) Cynllun Lleol Dosbarth Glyndwr, G6 Cynllun Fframwaith Cyngor Sir Clwyd: Addasiad Cyntaf, GEN7(i) a (ii) CON2 a HSG9(vi) fersiwn adnau Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych.

18/2000/0523/PF

(Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau a dderbyniwyd oddi wrth W.G. & N.C. Williams, Plas Bennett, Llandyrnog a chynlluniau a oedd wedi'u harddangos - cyfeiriodd y swyddogion hefyd at bwynt manwl ychwanegol yn ymwneud ag Uned B ar dudalen 32 yr adroddiad.
Manylion diwygiedig addasu tai allan yn anheddau (a ganiatawyd yn flaenorol dan rif côd 18/1016/98/PF) yn y Tai Allan yn Plas Bennett, Llandyrnog, Sir Ddinbych.
Yn dilyn cynnig i wrthod caniatâd ac wedi i'r nifer gofynnol o Aelodau ofyn am bleidlais gofnodedig, gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i bleidleisio i roi neu wrthod caniatâd cynllunio.

O blaid (rhoi caniatâd cynllunio) (12)
Y Cynghorwyr J. Butterfield, D.W. Davies, P. Douglas, D.M. Holder, F.D. Jones, P.M. Jones, R.E. Jones, E.A. Owens, F. Shaw, K.P. Stevens, W.G. Thomas a K.E. Wells.

Yn erbyn (gwrthod caniatâd cynllunio) (15)
Y Cynghorwyr M.Ll. Davies, S. Drew (dirprwy ar ran M.A. German), A.E. Fletcher-Williams, I.M. German, K. Hawkins, J.R. Hughes, N.J. Hughes, N. Hugh-Jones, G. Jones, R.J.R. Jones, J.A. Smith, S. Thomas, A.J. Tobin, C.H. Williams, a P.O. Williams

Atal ei Bleidlais (1)
Y Cynghorydd R.Ll. Williams.

Felly penderfynodd yr Aelodau WRTHOD caniatâd cynllunio.
Gwnaed y penderfyniad hwn, a oedd yn groes i argymhelliad Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio am y rheswm canlynol:-
1. Barn yr Awdurdod Cynllunio Lleol yw bod manylion y cynllun addasu yn annerbyniol yn nhermau'r effaith ar gymeriad a golwg yr Adeilad Rhestredig, yn groes i Bolisi H14(iv) Cynllun Lleol Dosbarth Glyndwr, a Pholisi G6 Cynllun Fframwaith Sir Clwyd: Addasiad Cyntaf.

18/2000/0524/LB

(Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau a dderbyniwyd oddi wrth W.G. & N.C. Williams, Plas Bennett, Llandyrnog).

Manylion diwygiedig addasu tai allan yn anheddau (a ganiatawyd yn flaenorol dan rif côd 18/1016/98/PF) yn y Tai Allan yn Plas Bennett, Llandyrnog, Sir Ddinbych.
Yn dilyn cynnig i wrthod caniatâd ac wedi i'r nifer gofynnol o Aelodau ofyn am bleidlais gofnodedig, gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i bleidleisio i roi neu wrthod caniatâd cynllunio i fanylion diwygiedig addasiad y tai allan yn anheddau.

<u>O blaid (rhoi caniatâd cynllunio) (12)</u>
Y Cynghorwyr J. Butterfield, D.W. Davies, P. Douglas, D.M. Holder, F.D. Jones, P.M. Jones, R.E. Jones, E.A. Owens, F. Shaw, K.P. Stevens, W.G. Thomas a K.E. Wells.

<u>Yn erbyn (gwrthod caniatâd cynllunio) (15)</u>
Y Cynghorwyr M.Ll. Davies, S. Drew (dirprwy ar ran M.A. German), A.E. Fletcher-Williams, I.M. German, K. Hawkins, J.R. Hughes, N.J. Hughes, N. Hugh-Jones, G. Jones, R.J.R. Jones, J.A. Smith, S. Thomas, A.J. Tobin, C.H. Williams, a P.O. Williams

<u>Atal ei Bleidlais (1)</u>
Y Cynghorydd R.Ll. Williams.

Felly penderfynodd yr Aelodau WRTHOD caniatâd cynllunio.
Gwnaed y penderfyniad hwn, a oedd yn groes i argymhelliad Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio am y rheswm canlynol:-
1. Barn yr Awdurdod Cynllunio Lleol yw bod manylion y cynllun addasu yn annerbyniol yn nhermau'r effaith ar gymeriad a golwg yr Adeilad Rhestredig, yn groes i Bolisi H14(iv) Cynllun Lleol Dosbarth Glyndwr, a Pholisi G6 Cynllun Fframwaith Sir Clwyd: Addasiad Cyntaf.

(c) *bod y ceisiadau canlynol i'w gohirio er mwyn gallu ymweld â'r safleoedd am y rhesymau a nodir:-*

| <u>Rhif y Cais</u> | <u>Disgrifiad a Lleoliad</u> |
|---|---|
| 01/2000/0661/PF | (Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Gyngor Tref Dinbych - ar gynlluniau diwygiedig).<br>Newid defnydd fflatiau (4) a chodi estyniad i ffurfio gwesty trwyddedig yn 53 Stryd y Dyffryn, Dinbych, Sir Ddinbych.<br>Y rheswm y penodwyd y Panel Archwilio Safleoedd oedd i ystyried effaith bosibl yr estyniad cefn arfaethedig i'r adeilad ar yr annedd gyfagos Rhif 51 Stryd y Dyffryn, Dinbych. |
| 40/2000/0364/OB | (Cyhoeddodd y Cynghorydd K.E. Wells ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr tra oedd yn cael ei ystyried).<br>Cais i ryddhau ymrwymiad cynllunio (Cytundeb Adran 52) ar Gais Cyfeirnod 2/BOD/739/79 mewn perthynas â meddiannaeth annedd (llety rheolwr) yn Faenol Fawr, Ffordd Rhuddlan, Bodelwyddan, Sir Ddinbych.<br>Rheswm: ystyried perthynas y grwp o adeiladau â'r gwesty ac ystyried effaith y datblygiad ar yr Adeilad Rhestredig. |
| 40/2000/0525/PF | (Cyhoeddodd y Cynghorydd K.E. Wells ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr tra oedd yn cael ei ystyried).<br>Rhannol ddymchwel clwb nos ac addasu 1 annedd ac addasu chalets gwyliau yn 1 annedd yn yr Hen Glwb Nos a Chalets Gwyliau, Faenol Fawr, Ffordd Rhuddlan, Bodelwyddan, Sir Ddinbych.<br>Rheswm: ystyried perthynas y grwp o adeiladau â'r gwesty ac ystyried effaith y datblygiad ar yr Adeilad Rhestredig. |

| | |
|---|---|
| 40/2000/0526/LB | (Cyhoeddodd y Cynghorydd K.E. Wells ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr tra oedd yn cael ei ystyried).<br>Rhannol ddymchwel clwb nos ac addasu 1 annedd ac addasu chalets gwyliau yn 1 annedd yn yr Hen Glwb Nos a Chalets Gwyliau, Faenol Fawr, Ffordd Rhuddlan, Bodelwyddan, Sir Ddinbych.<br>Rheswm: ystyried perthynas y grwp o adeiladau â'r gwesty ac ystyried effaith y datblygiad ar yr Adeilad Rhestredig. |
| 43/2000/0520/PF | (Ar ôl ystyried tri llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Gyngor Tref Prestatyn, J.L. Marsden, 10 West Avenue, Bryn Newydd, Prestatyn a'r Cynghorydd N. Hugh-Jones).<br>Codi to serth ar y garej bresennol sy'n sownd yn y ty yn 7 The Close, Prestatyn, Sir Ddinbych.<br>Rheswm: ystyried effaith y cynnig ar yr eiddo cyfagos. |

*(ch)* *tynnwyd yr eitem ganlynol yn ei hôl cyn ei hystyried*

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 46/2000/0561/PO | Datblygu 0.07 hectar o dir drwy godi un annedd gweithiwr amaethyddol a gosod tanc carthion newydd (cais amlinellol) ar Dir ar Fferm Pentre Uchaf, Mount Road, Llanelwy, Sir Ddinbych. |

**581. DYDDIAD YMWELIADAU SAFLE**

Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn gofyn am sêl bendith i ymweliadau safle sy'n codi o Eitem rhif 2 ar yr Agenda sydd i'w cynnal ar ddydd Gwener, 13eg Hydref, 2000 ac yn rhoi gwybod am aelodaeth bresennol y Panel Ymweld â Safleoedd.

***PENDERFYNWYD*** *cynnal yr ymweliadau safle sydd wedi'u cymeradwyo ar ddydd Gwener, 13eg Hydref, 2000.*

**582. RHESTR O GEISIADAU YR YMDRINIWYD Â HWY DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad ysgrifenedig diwygiedig (a gylchredwyd yn y cyfarfod) ynghylch y ceisiadau am Ganiatâd Cynllunio a benderfynwyd ganddo ef dan bwerau dirprwyedig rhwng 19eg Awst, 2000 a'r 15fed Medi, 2000.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**583. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *dan Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol oherwydd eu bod yn debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 7 Rhan 1 Atodlen 12a Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

**584. GWERTHUSIADAU AMAETHYDDOL**

Yn ymwneud â Chais Rhif:-

Eitem Rhif 26 Rhif y Cais 46/2000/561/PO - Pentre Uchaf, Llanelwy.

***PENDERFYNWYD*** *tynnu'r eitem hon yn ei hôl.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.30 p.m.

******************